Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Betws Yn Rhos
# Betws Yn Rhos
# Abergele
# Conwy
# LL22 8AW

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Betws Yn Rhos

Lleolir Ysgol Betws yn Rhos ym mhentref Betws yn Rhos, rhyw bum milltir o dref Abergele. Mae'n ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Conwy.

Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 67 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 9 oed meithrin rhan-amser. Mae 3 dosbarth oed cymysg yn yr ysgol.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae tua 5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol (18%). Mae tua hanner y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Nid oes yr un disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 15% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r ganran genedlaethol,sef 21%. Nid oes disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2012. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol, sy'n meithrin awyrgylch dysgu cefnogol a gweithgar i'r disgyblion.  O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu.  Maent yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr ac  yn arddangos balchder yn eu hysgol.

Mae athrawon wedi sefydlu perthynas waith effeithiol gyda'r disgyblion ac maent yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a diddorol sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt.  Mae ethos Cymreig cryf yn bodoli yn yr ysgol a'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol.  O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus.  Maent yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth bwrpasol sy'n rhoi cyfeiriad strategol clir i'r ysgol.  Caiff gefnogaeth gref gan staff ymroddedig sy'n cydweithio'n dda fel tîm.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion

A2 Sicrhau bod pob un o'r athrawon yn herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu yn gyson

A3 Sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith eu hunain

A4 Sicrhau mwy o gyfleoedd i athrawon rannu arfer dda oddi fewn a thu hwnt i'r ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd tebyg i'r rheini a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Er bod yr iaith Gymraeg yn iaith newydd i tua hanner ohonynt, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n astud ac, erbyn Blwyddyn 2, mae'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eu gweithgareddau ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu hunain yn glir yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus, gyda'r goreuon yn defnyddio geirfa gyfoethog a datblygedig, er enghraifft wrth drafod bywyd a gwaith Hedd Wyn.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Maent yn mwynhau darllen ar goedd ac yn defnyddio strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn gywir a rhugl ac yn trafod cynnwys testun yn ystyrlon gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau maent yn eu darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn gywir a hyderus yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Maent yn mynegi barn am lyfrau ac yn disgrifio'r prif gymeriadau a rhediad y digwyddiadau o fewn y straeon yn ystyrlon. Mae'r goreuon yn trafod testunau yn aeddfed a deallus gan grynhoi'r prif bwyntiau yn effeithiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymarfer eu medrau darllen yn gyson i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, gan gynnwys cyfeirlyfrau a'r we, er enghraifft i ddarganfod am fywyd plant yn yr ysgol yn Oes Fictoria.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau, er enghraifft wrth ysgrifennu gwahoddiad i Sali Sgerbwd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno'u syniadau yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith wrth ysgrifennu portread o gymeriad o'u dewis. Mae llawer yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn ystod o ffurfiau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu am fywyd plentyn yn yr Ail Ryfel Byd. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o'r disgyblion yn daclus.

Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn trin arian yn gywir, er enghraifft wrth chwarae rôl yn siop y dosbarth. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur wrth gynllunio tŷ Celtaidd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif ac, erbyn Blwyddyn 6, maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen. Maent yn eu cymhwyso'n llwyddiannus mewn amrywiaeth o weithgareddau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gymharu gwerthiant recordiau pop yn ystod yr 1960au, neu wrth gyflwyno canlyniadau ymchwiliad i sut mae cysgod yn newid dros amser.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n raddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol.  Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio llechen yn effeithiol wrth dynnu llun a recordio eu lleisiau.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ymchwilio'n ddiogel ar y we, er enghraifft wrth greu ffeil o ffeithiau ar y lleuad.  Maent yn defnyddio taenlenni yn addas er mwyn cyflwyno gwybodaeth, er enghraifft wrth greu graff am y tywydd yn Eryri.  Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau TGCh i lefel sy'n briodol ar gyfer eu hoed a'u gallu.

### Lles ac agweddau at ddysgu:  Da

Mae bron bob un o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol.  Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, wrth symud o amgylch yr ysgol ac yn ystod amser hamdden.  Maent yn gwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol.  Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd rhan fwyaf y disgyblion yn dda.  Maent yn ofalgar o'i gilydd yn ystod amseroedd egwyl a chinio, gyda disgyblion hŷn yn barod iawn i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau fel 'bydis buarth' yn helpu i gadw gofal ar y rhai iau a'u hannog nhw i chwarae adeg egwyl.  Mae hyn yn hybu gofal a chyfrifoldeb ymhlith y disgyblion.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith.  Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig, sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig.  Mae'r rhan fwyaf yn dangos lefelau da o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith.  Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llawer o'r disgyblion.  Er hyn, dechrau datblygu mae medrau disgyblion i wella ac arwain eu dysgu eu hunain.  Mae'r lleiafrif, ar adegau, yn or-ddibynnol ar arweiniad athrawon.

Mae'r disgyblion sydd ar y pwyllgorau niferus yn ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol.  Er enghraifft, mae'r cyngor eco gweithgar yn hybu gweithgareddau gwerthfawr yn yr awyr agored fel archebu 'polytunnel' a'r prosiect cadw ieir. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dysgu am dyfu llysiau a bwyta'n iach, yn magu ymwybyddiaeth o fyd amaeth ac yn datblygu medrau mentergarwch wrth werthu'r wyau.

Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfle i gefnogi elusennau amrywiol ac i gyfrannu at weithgareddau yn y gymuned, fel y gwasanaeth diolchgarwch yn yr eglwys.  Trwy gyfnewid gwybodaeth â phlant mewn ysgol yn Zambia, mae'r disgyblion yn magu ymwybyddiaeth o fywyd mewn gwledydd eraill.  Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r effaith mae hyn yn ei gael ar y corff.  Mae'r disgyblion yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol ac maent yn hapus i drafod problemau gydag aelodau staff, gan fod yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt.  Mae'r rhan fwyaf yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd.  Mae bron bob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

### Addysgu a phrofiadau dysgu:  Da

Mae staff yn sefydlu perthynas waith agos a chlos gyda'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch dysgu llwyddiannus.  Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda, ac

yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt tra maent yn gweithio, a rhyngweithio gyda'u cymheiriaid. Mae ethos Cymreig cryf yn bodoli ac mae'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r athrawon yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus.

Mae athrawon yn defnyddio'r gymuned leol yn effeithiol i ehangu profiadau disgyblion, er enghraifft wrth i'r disgyblion iau fynd am dro o amgylch y pentref i edrych am nodweddion yr hydref. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol a Chymru, trwy drefnu ymwelwyr i'r ysgol fel cyfansoddwyr lleol a chwmni drama a thrwy astudio bywyd a gwaith enwogion Cymreig ac artistiaid lleol. Mae hyn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'u cynefin ac o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus.

Mae'r athrawon yn darparu tasgau a phrofiadau sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol. Yn nosbarth ieuengaf y cyfnod sylfaen, defnyddir amrediad o weithgareddau symbylus a heriol i annog y dysgu, sy'n magu annibyniaeth ymysg disgyblion yn effeithiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Mae'r staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardal ddysgu tu allan. Enghraifft dda o hyn yw gwaith y disgyblion wrth greu a pharhau patrwm dilyniant gyda deunyddiau naturiol yn yr awyr agored.

Ym mhen uchaf y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae'r athrawon yn darparu ystod o brofiadau dysgu gwerthfawr sy'n bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir a, gan amlaf, yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau. Yn yr ychydig o enghreifftiau lle nad yw'r dysgu mor effeithiol, nid yw cynllunio bob amser yn darparu gweithgareddau addas i'r disgyblion mwy galluog gael eu herio i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd Cymraeg, Saesneg a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trosglwyddo a chymhwyso'r medrau hyn yn hyderus. Mae'r ysgol wedi ystyried y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn ofalus, sy'n dechrau mynd i'r afael â bylchau yn ei darpariaeth bresennol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn sicrhau digon o gyfleoedd i ddisgyblion ar draws yr ysgol gymhwyso'u medrau'n rheolaidd.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau'r defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn cynnig adborth gwerthfawr i'r disgyblion yn ystod gwersi ac yn eu hannog i ddyfalbarhau a myfyrio ymhellach ar sut i wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws yr ysgol a chyfyng yw'r cyfle i ddisgyblion arwain a gwella eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn er mwyn olrhain cynnydd disgyblion ac mae'r athrawon yn monitro cynnydd a lles disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth dda am gynnydd disgyblion er mwyn targedu unigolion a grwpiau penodol yn bwrpasol. Mae staff yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol a phersonol y disgyblion o oed cynnar er mwyn gweithredu ymyraethau priodol i alluogi

iddynt wneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae athrawon yn darparu cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ar gyfer y disgyblion hyn. Maent yn eu gwerthuso'n rheolaidd, gyda'r disgyblion a'r rhieni yn chwarae rhan lawn yn y broses adolygu. Yn ogystal, mae gan yr ysgol berthynas waith gadarn gydag ystod o asiantaethau eraill er mwyn cefnogi disgyblion ac i estyn cymorth ac arweiniad i staff.

Mae gan yr ysgol berthynas dda â'r rhieni, gyda chyfarfodydd cynnydd rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn rhannu gwybodaeth ac atgyfnerthu'r hyn all rhieni ei wneud i gefnogi eu plant â'u gwaith. Enghraifft o hyn yw noson wybodaeth ynglŷn â dull magu hyder a gwydnwch ble bu'r disgyblion yn addysgu eu rhieni am y strategaeth. Mae dulliau cyfathrebu priodol yn sicrhau bod rhieni yn cael codi unrhyw faterion a allai gael effaith ar ddysgu a lles eu plentyn yn amserol. O ganlyniad, mae'r rhieni yn teimlo'n rhan o'r ysgol ac yn cefnogi a chydweithio â'r ysgol yn effeithiol. Mae cyfeillion yr ysgol yn cyfrannu cyllid sylweddol, er enghraifft drwy brynu adnoddau TGCh sy'n galluogi'r ysgol i wireddu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol, lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae gan yr ysgol ethos croesawgar a theuluol, sy'n sicrhau bod y disgyblion a'r staff yn gofalu'n naturiol am ei gilydd. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais amlwg ar barch a chwrteisi. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad cadarnhaol bron pob un o'r disgyblion. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau personol unigolion yn gyson, er enghraifft trwy wobr 'Seren yr Wythnos'. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a lles disgyblion. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn dda trwy ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrio ac i rannu eu profiadau, er enghraifft trwy ddysgu am werthoedd yn eu gwasanaethau dyddiol. Mae'r cysylltiad agos â'r eglwys leol yn cyfrannu'n fuddiol tuag at ddatblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion. Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn ei chysylltiadau cryf â'r gymuned leol ac yn cefnogi eisteddfod a sioe'r pentref yn flynyddol. Mae'r cysylltiadau hyn yn cryfhau ymdeimlad y disgyblion o berthyn i'r gymuned, ac yn datblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'u hardal leol. Mae'r ysgol yn helpu'r disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o'r byd ehangach drwy eu cysylltiad ag ysgolion yn Zambia.

Mae ffocws clir ar ddatblygu addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion. Mae'r athrawon yn darparu amrywiol gyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ymuno â grwpiau arweinyddol fel y cyngor ysgol, y cyngor eco a'r llysgenhadol siarter iaith sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth. Trwy weithgareddau'r cyngor ysgol, cafwyd sychwr aer i sychu dwylo yn y toiledau er mwyn arbed papur. Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd helpu eraill yn gyson, er enghraifft trwy gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau celfyddydau creadigol a pherfformio'r disgyblion yn gadarn. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu creadigrwydd drwy weithgareddau cerddorol a chelfyddydol, er enghraifft trwy efelychu gwaith artist o Gymru a thrwy gymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithdy drymio. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hunanhyder a'u gallu i gydweithio mewn tîm yn llwyddiannus.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae ganddi weledigaeth sy'n seiliedig ar godi safonau a hybu lles a Chymreictod disgyblion. Mae'n cyfleu'r weledigaeth yn effeithiol i'r staff, disgyblion, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach. Mae aelodau'r staff yn cydweithio'n effeithiol gan gyflawni eu rolau a chefnogi'r pennaeth yn gydwybodol. Maent yn ysgwyddo cyfrifoldebau am arwain agweddau penodol o waith yr ysgol sy'n canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Enghraifft dda o hyn yw'r modd mae arweinwyr yn rhoi statws i'r iaith Gymraeg drwy'r Siarter Iaith ac yn datblygu iaith lafar y disgyblion o oed cynnar yn llwyddiannus.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu ystod eang o weithgareddau hunanarfarnu addas sy'n sicrhau bod ganddi ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r prosesau hunanarfarnu yn seiliedig ar ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol ynglŷn â chyflawniad disgyblion sy'n cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau dysgu ar agweddau penodol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi cryfderau'r ysgol yn dda ac yn sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth gadarn o'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae cyfleoedd buddiol i ystyried ac ymateb i farn disgyblion a rhieni wrth adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Enghraifft o hyn yw'r fenter cadw ieir sy'n darparu cyfle i ddatblygu ystod o fedrau, yn cynnwys gofalu am greaduriaid byw a medrau mentergarwch.

Mae cyswllt clir rhwng yr adroddiad hunanarfranu â'r cynllun datblygu ysgol sy'n canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'r ysgol yn blaenoriaethu'n briodol wrth roi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion. Enghraifft o hyn yw'r modd y mae'r ysgol wedi gwella medrau rhifedd disgyblion drwy sicrhau cyfleoedd cyson iddynt gymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol ar gyfer datblygu medrau athrawon a chymorthyddion yn eu lle sy'n seiliedig ar flaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau'r ysgol. O ganlyniad, mae staff yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu'n broffesiynol ac yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau i'r addysgu a'r dysgu, er enghraifft wrth wella medrau llafar ac ysgrifennu disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi sicrhau hyfforddiant gwerthfawr i athrawon a disgyblion ar agweddau o TGCh er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Mae'r athrawon yn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio ag ysgolion cyfagos, er enghraifft wrth ddatblygu agweddau o asesu ar gyfer dysgu a chyflwyno strategaeth i ddatblygu dysgwyr gwydn, sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar allu disgyblion i arwain eu dysgu eu hunain. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i athrawon rannu arfer dda oddi fewn i'r ysgol a thu hwnt.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol i'r ysgol ac mae aelodau yn ymweld â dosbarthiadau a'r ysgol gyfan yn rheolaidd. Trwy hyn, ac o dderbyn adroddiadau cynhwysfawr y pennaeth, mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae hyn yn datblygu eu hymwybyddiaeth o bob agwedd o fywyd yr ysgol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae rôl strategol y llywodraethwyr yn datblygu'n fwriadus ac maent yn dechrau herio'r ysgol am ei pherfformiad. Mae eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n raddol.

Mae arweinwyr a rheolwyr yr ysgol yn rheoli adnoddau yn effeithiol er mwyn darparu profiadau dysgu amrywiol a chyfoethog i'r disgyblion. Maent yn neilltuo cyllid yn briodol i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol ac yn monitro gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o grantiau yn fwriadus, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion i godi safonau llythrennedd a rhifedd ac i ddatblygu lles disgyblion yn llwyddiannus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/12/2018